

Crynodeb Gweithdy 2 Addysg Gymraeg a Dwyieithog i bawb 26 Ionawr 2022

Fe ganolbwyntiodd y sesiwn hon ar brofiadau mewnfudwyr rhyngwladol a benderfynodd anfon eu plant i ysgolion cyfrwng y Gymraeg a rhai o'r heriau sydd wedi ymddangos yn sgil hynny.

Trafododd rhieni sydd wedi mewnfudo i Gymru eu profiadau o addysg Gymraeg

Fe symudodd y **siaradwr cyntaf** i Gymru o Ewrop ac mae dau o'i phlant mewn addysg Gymraeg/dwyieithog ar hyn o bryd ond doedd sicrhau mynediad iddynt ddim yn hawdd.

Pan symudodd y teulu i Gymru gyntaf nifer o flynyddoedd yn ôl wnaethon nhw ddim ystyried addysg Gymraeg i'w plant, yn rhannol oherwydd nad oeddynt yn ymwybodol o fodolaeth ysgolion cyfrwng Cymraeg ac yn rhannol oherwydd mai blaenoriaeth y teulu fel llawer of fewnfudwyr oedd dysgu'r Saesneg. Er bod yr ymwelydd iechyd wedi rhannu gwybodaeth am feithrinfeydd ac addysg feithrin gyda'r rhiant doedd dim sôn am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Ar ôl i'r plant gychwyn mewn addysg gynradd cyfrwng Saesneg a derbyn gwersi Cymraeg ail iaith sylweddolodd y rhiant nad oedd hynny yn ddigon gan na allai'r plant siarad Cymraeg. Gyda'r plant iau, sylweddolodd mai'r unig ffordd iddynt ddysgu Cymraeg yn llawn oedd drwy fynychu addysg cyfrwng Cymraeg.

Erbyn hyn mae'r plant iau mewn addysg uwchradd ac yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mewn addysg cyfrwng Saesneg does neb yn gofyn a yw'r plant yn siarad Saesneg, dim ond rhoi cymorth maen nhw a chwe mis yn ddiweddarach maen nhw'n rhugl

Symudodd yr **ail riant** i Gymru o Affrica ac mae ei mab mewn ysgol feithrin erbyn hyn. Penderfynodd ei anfon i ysgol Gymraeg ar ôl iddi gyfarwyddo ag addysg Gymraeg mewn Cylch Ti a Fi.

Mae'r rhiant wedi dysgu Cymraeg ei hun yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae hi yn siarad Cymraeg gyda'i gŵr ond nid yw yn siarad Cymraeg gyda'i mab oherwydd mae am iddo ddysgu ei iaith frodorol hi. Mae ei gŵr yn siarad Cymraeg gyda'r plentyn.

Mar hi wedi dewis addysg feithrin cyfrwng Cymraeg i'r plentyn a bydd yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg oherwydd dyna yw iaith teulu ei gŵr. Mae'r plentyn yn gallu siarad tair iaith, ran amlaf mae o yn siarad Cymraeg oherwydd mae o yn clywed mwy ac yn defnyddio mwy ar y Gymraeg gyda teulu ac yr ysgol feithrin.

Teimla taw cyfrifoldeb y teulu yw e i gynnal ei hiaith frodorol hi yn y cartref, nid yr ysgol, oherwydd eu diffyg o ddealltwriaeth o'r diwylliant.

Symudodd y **trydydd rhiant** i Gymru o Affrica hefyd ac mae ei phlant mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Roedd hi wedi dysgu Cymraeg ei hun a phan gafodd blant penderfynodd eu hanfon i addysg cyfrwng Cymraeg Doedd o ddim yn hawdd ar y dechrau, ond gyda amser mae'n haws.

Ym mhrofiad y rhiant nid yw'r plant yn frwdfrydig i siarad Cymraeg gyda hi adref, maen nhw'n cysylltu siarad Cymraeg gyda bod yn yr ysgol. Yn y cyfnod clo roedd cael mynediad i adnoddau cyfrwng Cymraeg yn bwysig.

Un o'r problemau mae'r rhiant wedi'i wynebu fel dysgwr y Gymraeg yw siaradwyr Cymraeg yn cynnwys athrawon yn troi yn syth i'r Saesneg wrth sgwrsio gyda hi yn hytrach nag arafu wrth sgwrsio yn Gymraeg iddi hi gael deall.

Materion eraill a godwyd yn ystod y drafodaeth

- Roedd y drafodaeth wedi amlygu bod angen corff i gydlynu darpariaeth addysg Gymraeg.
- Mae tueddiad gan swyddogion i annog dysgu Saesneg i ffoaduriaid er mwyn canfod gwaith a dod yn rhan o'r gymuned.
- Nid yw addysg Cymraeg yn cael ei gynnig yn ddigonol i ffoaduriaid. Dylid ffeindio ffordd o roi hyder i roi'r cynnig. Nid yw'r wybodaeth yn cyrraedd y teuluoedd.
- Mae agwedd mewn rhai sefyllfaoedd bod yn rhaid i blant ffoaduriaid gael rhywbeth ychwanegol i gael mynediad i addysg Gymraeg. Ond mae ysgolion Saesneg yn dysgu Saesneg i bant o gefndir Saesneg fel y mae, maen nhw'n arbenigwyr yn y maes. Mae angen i addysgwyr feddwl yn ofalus beth ydy'r disgwyliadau wrth drafod gyda rhieni.
- Disgwylir i Strategaeth Sirol Addysg Gymraeg gynnwys datganiad am eu bwriadau i gynyddu a datblygu addysg Gymraeg yn y ddegawd nesaf. Mae cyfrifoldeb ar Awdurdodau Lleol i fod yn symud o ymateb i'r galw i fod yn symbylu neu greu'r galw am ddysg Gymraeg.
- Mae ysgolion yn mynd yn fwy annibynnol oddi wrth Awdurdodau Lleol felly er taw ar yr awdurdodau lleol mae'r cyfrifoldeb statudol i wireddu'r darpar dargedau tu fewn i fframwaith y llywodraeth, teimlad rhai yn y drafodaeth oedd na fydd newid mewn gwirionedd oherwydd diffyg cyllid i gynnal gwasanaethau.
- Mae RhAG yn bwriadu datblygu adrannau o'u gwefan mewn wyth iaith arall yn ychwanegol at y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'n bwysig addasu neges graidd ar gyfer gwanhaol gymunedau ieithyddol.

- Mae angen darparu cyrsiau trochi ar gyfer pobl sydd yn symud i Gymru ar Visa, yn enwedig yr Hong Kong British National Overseas Visa. Mae gwahaniaeth amlwg yn y wybodaeth sydd ar gael am addysg cyfrwng Saesneg ac addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae gwefan yn cael ei datblygu a bydd gwybodaeth am addysg Gymraeg yn cael ei chynnwys arni. Mae yna ddiddordeb mewn swyddi lle mae Cymraeg yn ddymunol, felly mae angen datblygu cefnogaeth mewn Cantonese
- Mae Cwrs WSOL Addysg Oedolion Cymraeg yn tystio fod gan ddysgwyr y Gymraeg llawer o ddiddordeb mewn *defnyddio'r* Gymraeg, e.e. ar gyfer cefnogi addysg eu plant a theimlo fel rhan mwy o'r gymuned.
- Nid yw mewnfwydwr yn sylweddoli fod ganddynt hawliau i anfon eu plant i addysg Gymraeg
- Mae Mudiad Meithrin yn weithgar yn hybu trosglwyddo o addysg feithrin i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.
- Teimla rhai bod teuluoedd di-Gymraeg yn dueddol o yrru eu plant i feithrinfa Gymraeg, ond wrth ddewis ysgolion cynradd, yn dewis ysgolion Saesneg oherwydd rhesymau fel pryderon am helpu eu plant gyda'r gwaith ysgol, a phryder nad yw safon Cymraeg eu plant yn ddigon uchel i gael addysg bellach drwyddi.
- Mae rhieni yn wynebu heriau gyda phroses ymgeisio wrth ddewis ysgolion, e.e. ceisiadau uniongyrchol i ysgolion Saesneg e.e. ysgolion ffydd yn bosib mewn rhai achosion, ond angen mynd trwy'r awdurdod lleol ar gyfer ysgolion Cymraeg.
- Wrth ddewis ysgolion, mae rhai rhieni yn poeni am ddysgu Saesneg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, er y dystiolaeth i ddiddymu'r pryderon hyn. Mae pryder am safon y Saesneg gan rai rhieni - *but when will they learn English* - does dim digon o wybodaeth ar gael i rieni am ddysgu Saesneg o fewn ysgolion Cymraeg.
- Mae teuluoedd ehangach rhai mewnfwydwr yn poeni am Gymraeg mewn cymhariaeth a'r Saesneg, mae gallu datblygu acen Saesneg yn bwysig i deuluoedd ehangach rhai mewnfwydwr
- Mae diddordeb mewn cyfleoedd trochi o fynychu ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i fynychu ysgolion uwchradd Cymraeg/Dwyieithog.
- Yng Ngwynedd a Môn mae pob ysgol gynradd yn un cyfrwng y Cymraeg/Dwyieithog felly'r dewis yw pa iaith dylai'r plant ddysgu yn gyntaf yn hytrach na pha gyfrwng addysg.



THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL



- Mae'n bosib i fewnfudwyr ddysgu Saesneg a Chymraeg fel ail ieithoedd tra hefyd yn cofio fod nifer o fewnfudwyr a ffoaduriaid yn dod o wledydd amlieithog eu hunain.
- Saesneg yw iaith gryfaf llawer o blant mewnfudwyr oherwydd mai dyna'r iaith sydd o'u cwmpas fwyaf.
- Mae grant ar gael ers blynyddoedd i hybu Saesneg fel iaith ychwanegol ond mae'r grant ar gael ar gyfer gyfrer hybu'r Gymraeg yn ogystal
- Mae angen creu amgylchedd ar hyd Cymru ble mae'r Gymraeg ar gael i bawb.